



CYNGOR BRO MORGANNWG,  
SWYDDFEYDD DINESIG, HEOL  
HOLTON,  
Y BARRI, CF63 4RU

YSGOL Y DDRAIG, HAM LANE EAST,  
LLANILLTUD FAWR, CF61 1TQ

YSGOL GYNRADD LLANDOCHAU,  
HEOL DOCHDWY, LLANDOCHAU, PENARTH, CF64 2QD



## **HYSBYSIAD STATUDOL I ADLEOLI SYLFAEN ADNODDAU ARBENNIG YSGOL GYNRADD LLANDOCHAU I YSGOL Y DDRAIG O IONAWR 2023.**

**RHODDIR HYSBYSIAD** yn unol ag adrannau 42(2) o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, 'y Ddeddf', a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 bod yr Awdurdod Lleol, ar ôl ymgynghori â'r personau hynny yn ôl y gofyn, yn bwriadu gwneud trefniadau rheoledig. Newidiadau i Ysgol Gynradd Llandochoau ac Ysgol Gynradd Y Ddraig trwy:

- Adleoli'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) yn Ysgol Gynradd Llandochoau i Ysgol Y Ddraig o Ionawr 2023.

Ystyrir y cynigion hyn o dan adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae Adran 2.3 yn cyfeirio at Newidiadau Rheoledig i ysgol, sy'n cynnwys trosglwyddo unrhyw ysgol i safle newydd.

### **Crynodeb o'r Cynnig:**

Mae'r ddwy ysgol gynradd yn ysgolion cymunedol cyfrwng Saesneg gydag ystod oedran o 3-11. Lleolir Ysgol Gynradd Llandochoau yn Heol Dochdwy, Llandochoau, Penarth, CF64 2QD. Lleolir Ysgol Y Ddraig yn Ham Lane East, Llanilltud Fawr, CF61 1TQ. Cynhelir y ddwy ysgol gan Gyngor Bro Morgannwg.

Bydd y cynnig yn arwain at adleoli'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Llandochoau i Ysgol Y Ddraig. Cynigir gweithredu'r cynnig ddydd Llun 9 Ionawr 2023.

Ym mis Ionawr 2022, roedd 16 o ddisgyblion (LAC) o oedran ysgol statudol ar y gofrestr yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol. Bydd capasiti'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol ar gyfer disgyblion o oedran ysgol statudol yn aros ar 20 lle. Bydd y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn cael ei darparu o fewn adeilad presennol Ysgol y Ddraig. Cyngor Bro Morgannwg fydd yr awdurdod derbyn a bydd yn parhau i gynnal yr ysgol.

Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i ddarparu cludiant ysgol am ddim i ddisgyblion o oedran ysgol statudol sy'n byw y tu hwnt i bellter cerdded i'r ysgol briodol agosaf, yn unol â 'Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008'. Bydd cymhwyster disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sydd â gofynion teithio penodol na ellir eu bodloni gydag addasiadau rhesymol ar gludiant priif ffrwd yn cael ei benderfynu gan y Tîm ADY. Bydd disgyblion ADY yn gymwys i gael cludiant am ddim os asesir bod ganddynt anawsterau difrifol a / neu gymhleth ac yn mynychu ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol yn unol â chyfarwyddyd y Tîm Anghenion Cymhleth neu ddsbarth mewn ysgol brif ffrwd sydd 2 filltir neu fwy. (disgyblion oed cynradd) o gyfeiriad cartref y rhieni yn ôl y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael.

Byddai'r cynnig hwn yn effeithio ar drefniadau teithio presennol i ddysgwyr gan y byddai'r ysgol yn cael ei lleoli i safle arall. Byddai'r ganolfan adnoddau arbenigol yn parhau i wasanaethu holl ardal Bro Morgannwg. Byddai trefniadau teithio am ddim yn seiliedig ar agosrwydd at leoliad newydd y ganolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol y Ddraig, Dwyrain Ham Lane, Llanilltud Fawr.

### **Ymgynghori:**

Cynhaliodd yr Awdurdod Lleol gyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ymgynghori sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghorwn, ynghyd ag ymatebion y cynigydd ar gael i'w weld ar wefan Cyngor Bro Morgannwg yn y cyfeiriad a ganlyn:

<https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/schools/Consultations/Consultation-on-SRB-re-location-to-Ysgol-Y-Ddraig.aspx>

### **Cyflwyno gwrthwynebiadau:**

Yn unol ag adran 49 o'r 'Ddeddf', caiff unrhyw berson wrthwynebu'r cynnig cyn diwedd 28 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod y cyhoeddwyd y cynigion, erbyn **dydd Mercher 7 Rhagfyr 2022**.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at:  
Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu  
Swyddfa Ddinesig,  
Heol Holltwn,  
Y Barri  
CF63 4RU

neu

e-bost [sustainablecommunitiesforlearning@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:sustainablecommunitiesforlearning@valeofglamorgan.gov.uk)

Bydd yr Awdurdod Lleol yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wnaed (a nas tynnwyd yn ôl yn ysgrifenedig) o fewn y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'u sylwadau arnynt, ar adeg hysbysu'r rhanddeiliaid o benderfyniad y cynnig.

Llofnodwyd:



Paula Ham  
Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau  
Cyngor Bro Morgannwg  
09/11/2022